**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth leol a Chymunedau

**National Assembly for Wales**
Equality, Local Government and Communities Committee

Carl Sargeant AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Llywodraeth Cymru
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

30 Medi 2016

Annwyl Carl,

Diolch i chi am ddod i'n cyfarfod ar 21 Medi i drafod eich cylch gwaith a'ch blaenoriaethau cynnar ar gyfer y Pumed Cynulliad. Yn ystod y sesiwn, gwnaethoch gytuno i ysgrifennu atom:

- ar ganlyniad y drafodaeth yr ydych yn bwriadu ei threfnu gyda'r Gweinidog yn Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am ffoaduriaid o Syria ar rôl Llywodraeth Cymru o ran adsefydlu ffoaduriaid, yn enwedig plant ar eu pennau'u hunain; a
- chyda manylion amseroedd ar gyfer y bwriad i gyflwyno Bil Hawliau Brydeinig gan Lywodraeth y DU, cyn gynted ag y byddant ar gael, a sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dylanwadu ar ddatblygiad Bil o'r fath.

Yn dilyn y sesiwn dystiolaeth, byddai'r Pwyllgor hefyd yn croesawu:

- eglurhad ynghylch a ydych yn ystyried unrhyw newidiadau i'r cyfnod o amser y mae'n rhaid i landlordiaid preifat gofrestru, a chael trwydded;
- manylion am y cymorth sydd ar gael ar gyfer landlordiaid newydd i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau statudol o ran Rhan 1 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014;
- rhagor o fanylion am gynlluniau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a allai godi yn sgîl penderfyniad gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i ailddosbarthu Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru yn gyrff sector cyhoeddus; unrhyw gynlluniau wrth gefn i ddeddfu os bydd angen, a'r amserlen o ran pryd y gallai deddfwriaeth gael ei chyflwyno;
- eich ymateb i'r pryderon a nodwyd ynghylch cynaliadwyedd gwasanaethau arbenigol o ran y sector trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig.

Yn olaf, yn ystod y drafodaeth, cyfeiriasoch at adolygiad arfaethedig o'r Rheoliadau Adeiladu, Rhan L (Arbed tanwydd a phŵer), a fyddai'n cael ei gynnal gan Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig. Buasem yn croesawu cael rhagor o fanylion a diweddariadau cyfnodol ar gynnydd yr adolygiad, o gofio goblygiadau posibl newidiadau i Ran L ar ddarparu cartrefi newydd a'u safon.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCommunities@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCymunedau@cynulliad.cymru
www.assembly.wales/SeneddCommunities
0300 200 6565

Roedd y Pwyllgor hefyd yn cydnabod y cysylltiadau agos rhwng portffolios y Cabinet, ac, i'r perwyl hwn, gofynnwn i chi roi gwybod i'r Pwyllgor am y strwythurau a'r trefniadau sydd ar waith a fydd yn galluogi cydweithio agos ar draws y portffolios rhwng Aelodau o Lywodraeth Cymru.

Cofion cynnes

John

John Griffiths AC
Cadeirydd